**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Safonau

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Gwener, 23 Mehefin 2023 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Mike Lewis (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| O G James | M B Lewis | L G Thomas |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|
| Janet Pardue-Wood | Mark Rees |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Aelodau Cyfetholedig(wyr): Michaela Jones a/ac Margaret Williams

---

## 1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol:

Datganodd y Cynghorwyr O G James ac M B Lewis gysylltiad personol â Chofnod 4 "Atgyfeiriad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Achos honedig o dorri'r Côd Ymddygiad gan Gynghorydd Cymuned."

Datganodd y Cynghorydd L G Thomas gysylltiad personol a rhagfarnol â Chofnod 4 "Atgyfeiriad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Achos honedig o dorri'r Côd Ymddygiad gan Gynghorydd Cymuned" a gadawodd y cyfarfod cyn i'r eitem gael ei thrafod.

## 2 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion dau gyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 22 fel cofnod cywir.

## 3 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraff gwahardd 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y Pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes/eitemau busnes lle'r oedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel y nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

**(Sesiwn Gaeedig)**

## 4 Atgyfeiriad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Honiad bod Cynghorydd Cymunedol wedi torri'r Côd Ynddygiad.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ar ran y Swyddog Monitro adroddiad a oedd yn ystyried adroddiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â'r toriad honedig o'r Côd Ymddygiad gan Gyn-gynghorydd Cymuned a atgyfeiriwyd at y Swyddog Monitro i'w benderfynu gan y Pwyllgor Safonau.

Amlinellodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd fanylion y gŵyn. Gofynnwyd i'r pwyllgor ystyried y canlynol:

a. a oedd tystiolaeth i gefnogi'r gŵyn neu
b. a ddylai'r cyn-gynghorydd dan sylw gael y cyfle i ymateb, naill ai ar lafar neu'n ysgrifenedig.

Ystyriodd y pwyllgor y dystiolaeth a theimlent fod tystiolaeth ddigonol i barhau i gam nesaf y broses a rhoddir y cyfle i'r cyn-gynghorydd ymateb. Byddai'r pwyllgor yn ystyried trefnu i Banel Gwrandawiadau glywed a phenderfynu ar y mater, yn unol â Gweithdrefn y Panel Gwrandawiadau.

**Penderfynwyd:**

1) Bod Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd yn ysgrifennu at y Cyn-gynghorydd ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn eu gwahodd i ymateb yn unol â Gweithdrefn y Panel Gwrandawiadau.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.27 am

**Cadeirydd**